



Prosiectau'r Bobl The People's Projects

Beth yw amcan y rhaglen?

Rydym wedi dod ynghyd gydag **ITV**, **STV** a'r **Loteri Genedlaethol** i ddathlu rhai o'r prosiectau anhygoel - fel eich prosiect chi - a ariannwyd trwy ein rhaglenni grantiau bach.

Mae Prosiectau'r Bobl yn gyfle i gymryd rhan mewn ymgyrch genedlaethol uchel ei phroffil, gan gystadlu am bleidleisiau'r cyhoedd am y cyfle i ennill grant o hyd at £50,000 gan y Loteri Genedlaethol. Mae'n ymgyrch gyffrous a heriol sydd angen amser, ymroddiad a thîm ymrwymedig i ddenu'r pleidleisiau y mae eu hangen ar eich mudiad.

Pwy all ymgeisio?

Rydym yn chwilio am brosiectau sydd:

- â ffocws ar gryfhau eu cymuned leol
- wedi derbyn grant o hyd at £10,000 trwy Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol dros y ddwy flynedd ddiwethaf
- wedi'u rhedeg gan grŵp gwirfoddol neu gymunedol, fel elusen, grŵp cymunedol, cydweithfa neu fenter gymdeithasol
- â syniadau llawn dychymyg am sut i dyfu eu grŵp neu ddatblygu'r prosiect y maent wedi derbyn grant ar ei gyfer ymhellach
- â chefnogaeth gan bobl yn eu cymuned a fydd yn dod â phobl ynghyd
- â'r gallu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i hysbysebu eu gwaith anhygoel

Efallai bod eich prosiect presennol wedi dod i ben, ac os nad ydych wedi dweud wrthym sut aeth e, mae'n bosib y byddwn yn gofyn am fwy o wybodaeth gennych cyn i ni benderfynu pa brosiectau i'w rhoi ar y rhestr fer.

Aros eiliad - a fyddaf ar y teledu?

Os ydych chi'n un o'r pum prosiect sy'n cyrraedd y rhestr fer yn eich rhanbarth, byddwch!

I gael cyfle o ennill bydd angen i chi ysbrydoli pobl i gefnogi'ch prosiect. I helpu gyda hyn, bydd ITV, STV ac UTV yn ymweld â'r prosiectau ar y rhestr fer i ffilmio fideo byr a gaiff ei dangos ar y newyddion rhanbarthol yn ystod yr wythnos bleidleisio gyntaf y flwyddyn nesaf.

Rhwng Ionawr a Chwefror 2019, byddwn yn cynnig cefnogaeth ac yn darparu hyfforddiant cyfryngau i'ch helpu paratoi at y bleidlais gyhoeddus. Pan fydd y bleidlais yn agor, bydd angen i chi roi o'ch amser ac adnoddau i ennyn dychymyg y cyhoedd a'u darbwylllo i bleidleisio drosoch chi.

Mae angen i chi ystyried a ydych yn gyfforddus gyda'r math hwn o ymgyrchu a'r lefel gyhoeddusrwydd a ddaw i'ch prosiect cyn ymgeisio i Brosiectau'r Bobl 2019.

Mae gennyf ddiddordeb. Sut ydw i'n dechrau arni?

Tl ymgeisio, y cyfan y mae angen i chi ei wneud yw dilyn y ddolen yn yr e-bost a dderbynioch oddi wrthym ni ac ateb y cwestiynau a ganlyn:

- **manylion personol**
- **enw'r mudiad**
- **rhif adnabod y prosiect** – mae hwn yn y gwahoddiad e-bost a anfonwyd atoch
- **rhanbarth teledu eich prosiect** – pa gefndir stiwdio ydych chi'n ei weld wrth i chi wyllo newyddion rhanbarthol ITV am 6pm? Gofynnwch i bawb sy'n ymwneud â'r prosiect, gan y gallai pobl sy'n byw mewn ardal sy'n derbyn signalau lluosog fod yn gweld rhaglenni rhanbarthol gwahanol gan ddibynnu ar ba lwyfan y maent yn gwyllo ITV. Mae mw y o arweiniad ar hyn o beth ar gael ar ddiwedd y ddogfen.
- **rhif ffôn a chyfeiriad e-bost**

Bydd angen i chi ateb y cwestiwn a ganlyn mewn uchafswm o 500 gair:

- Beth mae eich grŵp wedi'i gyflawni ers derbyn eich grant diweddar gan ein rhaglen Arian i Bawb?
- Sut fyddwch chi'n datblygu eich gwaith gyda hyd at £50,000 i wneud eich cymuned yn gryfach?
- Sut fyddwch chi'n cynnwys eich cymuned ac yn dod â phobl ynghyd?

Gallwch ymgeisio'n ysgrifenedig neu drwy ffilm tair munud.

Noder y dylai ymgeiswyr gyflwyno cyfanswm o hyd at 500 gair, wedi'i rannu ar draws y tri chwestiwn. Fel argymhelliad rydym yn awgrymu'r cyfrif geiriau a ganlyn:

- tua 200 gair ar gyfer cwestiwn 1
- tua 200 gair ar gyfer cwestiwn 2
- tua 100 gair ar gyfer cwestiwn 3

Os ydych yn cyflwyno fideo, gofynnwn i chi uwchlwytho hwn i'ch gwefan neu sianelau cyfryngau cymdeithasol a darparu dolenn y gallwn ei defnyddio i wyllo'r fideo. **Cofwch brofi'r ddolen cyn i chi ei chynnwys yn eich cais.**

Yn ychwanegol at destun neu ffilm, gallwch ddarparu dolenni at hyd at dri llun sy'n arddangos eich gwaith.

Sut byddwn ni'n llunio'r rhestr fer?


Yn gyntaf, byddwn yn gwirio bod eich mudiad yn addas i ymgeisio ac yn gymwys i dderbyn y grant rydych wedi gofyn amdano. Wedyn byddwn yn ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Sut fydd y prosiect yn cryfhau'r gymuned leol?
- Sut mae'r gymuned leol wedi ymwneud â siapia'r prosiect?
- A fydd y prosiect yn dod â phobl ynghyd o fewn y gymuned ac a oes cefnogaeth gref gan bobl leol sy'n ymwneud â'i gyflwyno?
- Ydy'r cynlluniau ar gyfer y grant ychwanegol yn realistig?
- Sut fydd y grant ychwanegol yn estyn cwmpas neu effaith y prosiect ar draws y gymuned?

Dyddiadau Allweddol

**Hanner dydd
ar ddydd
Gwener 28
Medi 2018**

Terfyn amser ymgeisio i Brosiectau'r Bobl a chwblhau'r ffurflen gais ar-lein.



**Dydd Gwener
12 Hydref 2018**

Caiff prosiectau eu hysbysu p'un a ydynt wedi'u gwahodd i ddarparu cais mwy manwl ai beidio.



**Dydd Gwener
9 Tachwedd
2018**

Terfyn amser dychwelyd y cais manwl.

**Dydd Gwener
14 Rhagfyr
2018**

Hysbysir y prosiectau sy'n cyrraedd y rhestr fer.

Ionawr 2019

Darperir cefnogaeth a hyfforddiant i helpu prosiectau i baratoi ar gyfer y teledu ac i ymgyrchu dros gefnogaeth yn y gymuned.




Chwefror 2019 Bydd ITV, STV, UTV ac ITV Cymru Wales yn ffilmio'r prosiectau ar y rhestr fer.



**Mawrth ac
Ebrill 2019**

Cynhelir y bleidlais gyhoeddus a bydd y prosiectau'n ymgyrchu dros gefnogaeth! Bydd ITV, STV ac UTV yn cyhoeddi'r canlyniadau a bydd y prosiect sy'n cael y nifer uchaf o bleidleisiau'n derbyn hyd at £50,000 yr un.



Ar beth y gallaf wario'r arian?

Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gallwn a'r hyn na allwn ei ariannu, er nad rhestr gynhwysfawr mo hon, cysylltwch â ni os nad ydych yn siŵr. Byddwn yn ariannu holl gostau'r prosiect, y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn blwyddyn ar ôl derbyn yr arian.

YES			NO		
					
Costau hyfforddiant	Treuliau gwirfoddolwyr	Costau staff	Alcohol	Gweithgareddau gwneud elw / codi arian	TAW adferadwy
					
Prosiectau cyfalaf bach	Cludiant	Digwyddiadau unigol	Gweithgareddau statudol	Costau wrth gefn, benthyciadau, gwaddolion neu log	Gweithgareddau gwleidyddol neu grefyddol
					
Cyfarpar	Gwres a golau/costau rhedeg		Talu rhywun arall i ysgrifennu'ch cais	Cynhyrchu trydan a thaliadau tariff cyflenwi trydan	

Ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Ffoniwch ein llinell gymorth ar 0300 123 0735.

Ble ydych chi ar y map ITV?

Os ydych yn un o'r ymgeiswyr ar y rhestr fer, bydd eich prosiect yn ymddangos ar newyddion rhanbarthol ITV i ennill cefnogaeth gan eich cymuned leol.

Gydag 19 o ranbarthau ITV (gan gynnwys STV, UTV ac ITV Cymru Wales), wedi'u cynnwys o dan Brosiectau'r Bobl, mae'n hollbwysig i chi roi gwybod i ni ble rydych wedi'ch lleoli ar y map ITV.

Mewn rhai lleoliadau, mae'n bosib na fydd y rhanbarth mwyaf priodol yr un mor amlwg ag y mae mewn lleoliadau eraill. Mae'n bosib y bydd llawer o aelwydydd a lleoliadau'n derbyn signalau gwahanol gan ddibynnu ar nifer o ffactorau daearyddol a thechnegol lleol.

Dylech ddewis y rhaglen newyddion ITV ranbarthol yr ydych chi a'r bobl sy'n ymwneud â'ch prosiect yn ei gwyllo.

I ddarganfod ym mha ranbarth ITV y mae'ch prosiect wedi'i leoli, trowch i newyddion rhanbarthol ITV a ddarlledir bob dydd am 6pm (gwnewch yn siŵr nad ydych yn gwyllo ar HD neu ITV+1 gan y gall hwn fod yn wasanaeth gwahanol) **ac edrychwch ar y cefndir y tu ôl i'r cyflwynwyr. Parwch hynny gyda'r un a ddarperir isod a bydd hynny'n dweud wrthy'ch ba wasanaeth rydych yn ei wyllo.**

Gall y newyddion rhanbarthol a welwch ddibynnu ar ba gyfeiriad y mae'r erial teledu'n pwyntio. Gwnewch yn siŵr eich bod yn holi pobl sy'n ymwneud â'ch prosiect pa gefndir maen nhw'n ei weld gan y gall cymdogion drws nesaf weld newyddion rhanbarthol gwahanol weithiau. Mae ardaloedd fel De Swydd Efrog, Gogledd Swydd Nottingham neu Ogledd Swydd Derby yn aml wedi'u heffeithio gan hwn.

Cofiwch mai chi sy'n gyfrifol am ddewis y rhanbarth cywir gan na all y Gronfa Loteri Fawr nag ITV wneud hyn ar eich cyfer chi.

Anglia East



Anglia West



Border



Calendar North



Calendar South



Central East



Central West



Granada



London



ITV Meridian East

– chwiliwch am y cyfres o deitlau a ganlyn




ITV Meridian West

– chwiliwch am y cyfres o deitlau a ganlyn



Ym Meridian West mae'n bosib y byddwch yn gweld y teitlau hyn hefyd. Os byddwch, dewiswch ITV Meridian West



Tyne Tees



Wales



West Country East



West Country West



STV East



STV North



STV West



UTV



Os bydd angen arweiniad pellach arnoch ar ba ranbarth i'w ddewis, cysylltwch â'n Tîm Cymorth ar 0300 123 0735.

